# CYLCHLYTHYR

*Lleihau'r perygl o lifogydd yn Aberaeron gyda'n gilydd*

**Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron**

bam

**Rhif 2: Ebrill 2024**


## Croeso

Dyma ein hail gylchlythyr ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron sy'n ceisio rhoi trosolwg o'r gwaith sydd ar ddod.

Os hoffech chi weld ein cylchlythyrau sganiwch:

**Saesneg:** **Cymraeg:**



*Bydd BAM Nuttall yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion ac AtkinsRéalis Design Consultancy i gyflawni Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron.*

*Llun: Andrew Chittock*

## Cyflenwadau cerrig amddiffynfa fôr arfordirol Aberaeron

Gwybodaeth

Mae'r cynnydd yn lefel y môr a stormydd yn fygythiad difrifol i'n tref glan môr Aberaeron. Bydd gweithredu'r cynllun hwn yn gwella lefel yr amddiffyniad i'r nifer fawr o fusnesau a chartrefi yn y dref, a bydd yn cadw cymeriad unigryw a hanesyddol yr ardal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rhagwelir y bydd angen cyfanswm o 120,000 tunnell o gerrig ar gyfer y prosiect i adeiladu'r amddiffynfa arfordirol newydd. Mae cyflenwi cerrig yn elfen bwysig ym Mhrosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron. Mae BAM wedi prynu'r cerrig llai o faint o chwarel leol yn Ystrad Meurig yng Ngheredigion. Mae'r cerrig mwy o faint yn dod o Norwy a Ffrainc oherwydd nid yw'r math arbennig hwn o garreg ar gael yn y DU. Bydd yr arfwisg gerrig fwy o faint yn cyrraedd ar y môr, gyda thua deg cyflenwad i gyd.

Mae'r arfwisg gerrig o'r ansawdd gorau ac fe'i defnyddir yn eang ar gyfer prosiectau amddiffyn yr arfordir tebyg ar draws y DU.




*Cyflenwadau cerrig yn cefnogi busnesau Cymru*


Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

bam

CONSIDERATE CONSTRUCTORS SCHEME

Mae BAM yn awyddus i gefnogi'r economi leol trwy ddefnyddio carreg o ffynonellau lleol a fydd o fudd i drefi a busnesau lleol. Mae'r prosiect yn cefnogi swyddi lleol trwy gludwyr, staff cynhyrchu chwareli, gweithredwyr peiriannau, gan gynnwys garejys, siopau, caffis ac ati ar hyd y ffordd o'r chwarel i Aberaeron.

Mae BAM yn cael y mwyaf posibl o gerrig drwy gludiant ar y ffordd er mwyn sicrhau bod yr economi leol yn cael y budd mwyaf, a chaiff hyn ei ategu gan gludiant ar y môr ar gyfer y cerrig mwy o faint er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni a lleihau'r tarfu ar yr ardal leol.

Mae gweld y bad a'r cychod tynnu yn cyrraedd wedi denu llawer o sylw ymysg pobl leol a thwristiaid sy'n ymweld ag Aberaeron. Cafodd yr ail fad o'r enw 'Edmy' oedd yn cludo hyd at 6,800 tunnell groeso cynnes gan yr ysgol gynradd leol a ddaeth i lawr i wylio'r jaciau codi baw, y cychod, a'r tryciau dympio wrth eu gwaith.



*Taith Ysgol Gynradd Aberaeron i weld y bad*

## Rheoli Traffig

Rydym yn gwneud pob ymdrech posibl i leihau ein heffaith ar drigolion ac ymwelwyr ag Aberaeron wrth i ni weithio ar yr amddiffynfeydd rhag llifogydd. Fodd bynnag, mae angen rheoli traffig a cherddwyr er mwyn i ni gael mannau diogel i weithio a diogelu'r cyhoedd. Bydd y cyfyngiadau dros dro yn parhau yn eu lle tan ddiwedd y flwyddyn.



*Dymchwel y wal ym Mhen Cei* *Llun gan Andrew Chittock*

## Beth ydym ni wedi bod yn ei wneud?

- Parhau i dderbyn cyflenwadau cerrig ar y môr ac ar y ffordd a'u storio ar hyd Traeth y De a Morglawdd y Gogledd
- Tynnu celfi stryd Pen Cei a waliau mewnol yr harbwr
- Dymchwel wal llifogydd presennol Pen Cei
- Tynnu grwynau o Draeth y De
- Gosod argae coffr dros dro ar draws y fynedfa i harbwr mewnol Pwll Cam
- Gwaith gosod seilbyst ar hyd Afon Aeron
- Gosod seilbyst i ddiogelu'r gwaith arfaethedig ym mhen draw Pier y De
- Derbyn cyflenwadau o jaciau codi baw a thryciau mawr.

## Gwaith allweddol sydd ar ddod

**Ebrill:**

- Cerrig yn parhau i gyrraedd ar y môr
- Dechrau adeiladu Morglawdd y Gogledd
- Dechrau ailadeiladu wal gynnal gerrig Traeth y De
- Draenio Harbwr Mewnol Pwll Cam a chreu mynediad
- Cloddio ac adeiladu slab sylfaen ar gyfer y gât harbwr newydd
- Dechrau cloddio ac adeiladu wal Teras Pwll Cam
- Growtio waliau harbwr Pen Cei
- Dymchwel Pen Pier y De.

**Mai:**

- Parhau â'r uchod i gyd
- Cloddio ac adeiladu wal llifogydd Pen Cei
- Cloddio ac adeiladu sylfaen goncrit newydd ar gyfer Pen Pier y De
- Dechrau adeiladu trawst capio newydd wal Afon Aeron
- Traeth y De – dechrau gosod grwynau pren newydd
- Dechrau adeiladu waliau cynnal gât harbwr Pwll Cam.

**Mehefin:**

- Parhau â'r uchod i gyd
- Cladin cerrig yn dechrau yn Nheras Pwll Cam a waliau Pen Cei.

## Cwestiynau cyffredin

Pam ydym ni'n mewnforio cerrig ar y môr?

Mae BAM yn parhau i brynu cerrig o chwarel leol ond mae chwareli yn y DU yn cynhyrchu cerrig ffordd fel arfer, dyma lle mae'r farchnad fasnachol. Er mwyn cynhyrchu cerrig ffordd yn fasnachol mae angen patrymau ffrwydro yn y chwarel sy'n cynhyrchu cerrig llai o faint sydd yn ei dro yn gwneud arfwisg gerrig yn sgil-gynnyrch. Er mwyn cael niferoedd/tunelli mawr o gerrig arfwisg mae'n rhaid troi at y farchnad yn Norwy a Ffrainc gan eu bod yn ffrwydro am gerrig mwy o faint mewn meintiau enfawr.

C: Pa mor hir ydych chi'n disgwyl i'r prosiect bara?
A: Disgwylir i'r gwaith bara tan ddiwedd y flwyddyn.

C: Sawl gwaith fydd cerrig yn cyrraedd ar y môr?
A: Bydd cyflenwadau bad yn cyrraedd 10 gwaith ar y môr.

C: Sut olwg fydd ar Draeth y De pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau?
A: Bydd Traeth y De yn cael ei ail-broffilio a'i adfer i edrych fel yr oedd o'r blaen. Mae'r stoc cerrig a'r rampiau mynediad i gerbydau i gyd yn rhai dros dro a chaiff y cerrig eu defnyddio mewn mannau eraill yn y cynllun.

C: Pryd fydd Pen Cei, Traeth y De a'r bont droed yn ail-agor?
A: Diwedd y flwyddyn 2024.

## Cyfarfod safle BAM â Chyngor Tref Aberaeron

Cynhaliwyd yr ymweliad safle ar hyd Pen Cei a Phwll Cam. Esboniodd y Rheolwr Prosiect y rhaglen waith ac ymateb i gwestiynau'r Cyngor Tref. Mae BAM wedi ymrwymo i weithio gyda'r Cyngor Tref a chefnogi'r digwyddiadau blynyddol lleol sy'n cael eu cynnal yn Aberaeron.




*Rheolwr Prosiect BAM Andy Pointon-Bell, Uwch Reolwr Gwaith, Keith Hughes a'r Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd, Gwen Clements yn cwrdd â Maer Cyngor Tref Aberaeron, y Cynghorydd Rhodri Jones, y Cynghorydd Elizabeth Evans, a Chlerc Cyngor Tref Aberaeron, Denfer Morgan.*

> *Ar ôl blynyddoedd lawer o aros i'r prosiect hwn ddechrau, mae'n deimlad rhyfedd iawn gweld Bam Nuttall ar y safle. Mae dymchwel wal enwog Pen Cei a rhannau o Bier y De, a'r gwaith ar Draeth y De a Phwll Cam, yn ein hatgoffa ni i gyd pa mor fawr yw'r prosiect hwn, a pha mor bwysig yw e i ddyfodol Aberaeron.*
>
> **Y Cynghorydd Elizabeth Evans**
> **Cyngor Tref Aberaeron**

# Dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
## Dathliad byd-eang o gyflawniadau menywod

Yn BAM ein nod yw creu diwylliant gwirioneddol gynhwysol i bawb – lle mae amrywiaeth eang o sgiliau, profiadau, a safbwyntiau yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi, a lle mae pawb yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial.

Fe wnaethom ni ofyn i rai o'n tîm sy'n gweithio ar Brosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron ar hyn o bryd i sôn wrthym am chwech o'u tasgau bob dydd ar ddiwrnod arferol ar y safle.

- *Paratoi gwaith prosiect yn unol â'r dyluniadau a'r fanyleb*
- *Arolygu seilwaith newydd a phresennol ar gyfer dylunio a chofnodion*
- *Monitro ansawdd y gwaith a chadw cofnodion ansawdd*
- *Cynhyrchu datganiadau dull ac asesiadau risg ar gyfer gweithrediadau safle*
- *Monitro a lleihau effeithiau amgylcheddol gwaith safle.*


SOPHIE RICE
Peiriannydd Dan Hyfforddiant



#INWED21 International Women in Engineering Day 23 June 2023

- *Negodi pecynnau gwaith is-gontractau: Trefnu pecynnau ymholiad, gwahodd / gwerthuso tendrau a chytuno ar delerau ac amodau*
- *Prosesu taliadau is-gontractau*
- *Monitro costau yn erbyn rhagolygon a chreu adroddiadau i'w hadolygu*
- *Hwyluso'r defnydd o gyflenwyr newydd i helpu i gyflawni ein gwaith*
- *Nodi hawl ychwanegol yn erbyn ein prif gontract a lleihau atebolrwydd yn erbyn costau sy'n mynd allan.*

ABBY DAVIES
Syrfëwr Meintiau



#INWED21 International Women in Engineering Day 23 June 2023

BAM PLO yn cwrdd â Sefydliad y Merched Ceredigion ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod cyn cychwyn ar eu taith gerdded elusennol ar gyfer yr elusen leol HAHAV. Roedd y grŵp wedi mwynhau dysgu am y bad oedd wedi cyrraedd o Norwy a chlywed am y prosiect.



- *Cynnal gwiriadau safle ar gyfer rhywogaethau a warchodir ac â blaenoriaeth yn yr ardal e.e. morloi bach*
- *Briffio'r tîm ar ddulliau gweithio i liniaru effeithiau amgylcheddol*
- *Cynnal briffiau gwylio i sicrhau bod y gwaith yn unol â Datganiadau Dull Trwydded Forol a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol*
- *Nodi unrhyw gyfyngiadau ecolegol posibl e.e. adar yn nythu*
- *Rhoi cyngor amgylcheddol*
- *Cynnal ailasesiad cyfnodol o fesurau lliniaru.*

ABBY PILKINGTON
Clerc Gwaith Ecolegol / Ecolegydd



#INWED21 International Women in Engineering Day 23 June 2023

- *Cadw cofnodion*
- *Clirio anfonebau i'w talu*
- *Delio â phob ymholiad mewn modd amserol*
- *Paratoi rhifau archeb ar gyfer y safle*
- *Trafod ffyrdd o wella proffidioldeb o fewn yr adran*
- *Gweithredu'r ffocws ar Ddiogelwch yn y Gwaith*
- *Hyfforddi i fod yn Rheolwr Swyddfa.*

MICHELLE LYONS
Cynorthwy-ydd Masnachol / Clerc Costau



#INWED21 International Women in Engineering Day 23 June 2023

- *Derbyn ac ymateb i ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd*
- *Ymgysylltu â rhanddeiliaid a busnesau lleol*
- *Nodi grwpiau cymunedol lleol a buddion cymunedol*
- *Trefnu cyflwyniadau addysgol ar gyfer ysgolion a grwpiau ieuenctid*
- *Paratoi hysbysiadau gwybodaeth a chylchlythyrau i'w harddangos yn y dref.*

GWEN CLEMENTS
Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd



#INWED21 International Women in Engineering Day 23 June 2023

*Lluniau gan Andrew Chittock*

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cael gyrfa gyda BAM edrychwch ar ein gwefan Swyddi a Gyrfaoedd BAM.

Sganiwch yma



## Oriel adeiladu


Gosod yr argae coffr ar Bier y De




* Dadlwytho'r arfwisg gerrig o'r bad


Chwarel Ystrad Meurig


Gosod seilbyst parhaol ar hyd Afon Aeron


* Pier y De – Llanw mawr ym mis Mawrth


* Pen Cei


* Stoc cerrig dros dro i gynnal y ffordd fynediad dros dro ar hyd Traeth y De



* Dymchwel Pier y De

** Lluniau gan Andrew Chittock*

## EIN TÎM

**Rheolwr Contractau**
Ray Jones

**Rheolwr Prosiect**
Andrew Pointon-Bell

**Syrfëwr Meintiau**
Abby Davies

**Rheolwr Gwaith**
Keith Hughes

**Fforman Cyffredinol**
Damion Hopkins

**Asiant Safle**
Emyr Thomas

**Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd**
Gwen Clements

**Cynghorydd Amgylcheddol**
John Clancy

## EIN PARTNERIAID

**Cyngor Sir Ceredigion:**

**Rheolwr Prosiect**
Alan Haird

**AtkinsRéalis Design Consultancy:**

**Rheolwr Prosiect**
Steffan Davies

**Rheolwr Dylunio**
Matthew Tierney

## Ynglŷn â BAM

BAM UK and Ireland yw un o sefydliadau gwasanaethau adeiladu mwyaf y DU. Mae BAM yn gweithredu o swyddfeydd rhanbarthol sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban, ac mae'n weithgar ym maes adeiladu, peirianneg gwasanaethau, dylunio, rheoli cyfleusterau, datblygu eiddo, a llogi peiriannau.

## Amgylchedd a chymuned

Trwy fabwysiadu agwedd gyfrifol a rhagweithiol at faterion amgylcheddol, mae BAM wedi ymrwymo i leihau effeithiau niweidiol posibl ei weithgareddau busnes ar yr amgylchedd a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy trwy gydbwyso ei amcanion busnes ac ystyriaethau amgylcheddol. Bydd BAM yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill y mae'n ymrwymo iddynt, lle bo hynny'n bosibl, mewn perthynas â'i agweddau amgylcheddol a chynnwys cymunedau yn y prosiect.

## Adeiladwyr Ystyriol

Mae pob safle BAM yn cofrestru gyda'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi ymrwymo i fod yn gymydog da ac i fod yn lân, yn barchus, yn ddiogel, yn ymwybodol o'r amgylchedd, yn gyfrifol ac yn atebol. Mae ein safle yn cael ei archwilio'n annibynnol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r nodau hyn.

Rydym yn ceisio gweithio mewn ffordd sy'n achosi cyn lleied o anghyfleustra â phosibl i'n cymdogion. Ymddiheurwn am unrhyw niwsans a allai gael ei achosi yn ystod y gwaith na ellir ei osgoi.

## Cysylltu â Ni

Ein bwriad yw cwblhau'r gwaith hwn heb fawr o amharu. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd sydd ar gael i helpu.

**Gwen Clements:**

**07585 633799**    **Aberaeron.plo@bam.com**

Gallwch gofrestru ar gyfer diweddariadau ebost trwy ebostio aberaeron.plo@bam.com a chadarnhau yr hoffech dderbyn diweddariadau a chopi o gylchlythyrau yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am BAM Nuttall Limited:

Sganiwch yma